Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Nant Caerau
# Lon Caerau
# Caerau
# Caerdydd
# CF5 5QZ

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Nant Caerau

Lleolir Ysgol Gymraeg Nant Caerau yn ardal Treláí yn awdurdod lleol Caerdydd. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 246 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 42 disgybl yn y dosbath meithrin rhan amser. Mae 8 dosbarth oed sengl yn yr ysgol. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.

Dros dreigl tair blynedd, tua 26% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 17% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar, lle mae'r pennaeth a'i staff yn creu amgylchedd croesawgar, cefnogol a gweithgar ar gyfer y disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd effeithiol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg gyda balchder ac mae cynnydd rhan fwyaf y disgyblion yn eu medrau iaith yn dda.

Mae'r staff i gyd yn datblygu lles y disgyblion yn ddiwyd ac yn gydwybodol. Mae bron pob disgybl yn mwynhau mynychu'r ysgol a dangosant frwdfrydedd amlwg at ei gwaith. Mae ganddynt berthnasoedd gwaith cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un disgybl yn dda iawn.

Mae'r athrawon yn paratoi gwersi sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn fwriadus ac yn cynllunio ystod o brofiadau diddorol sy'n ymateb i'w gofynion yn effeithiol.

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir. Ar y cyfan, maent yn gweithredu prosesau hunanwerthuso buddiol ac yn mynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella yn llwyddiannus.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion

A2 Sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu fel eu bod yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

A3 Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau i'w galluogi i herio perfformiad yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llafar yn y Gymraeg a medrau rhif sy'n is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd effeithiol ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Mae llawer o'r disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol heb fedrau Cymraeg yn defnyddio'r iaith yn bwrpasol erbyn diwedd y dosbarth derbyn. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi a sefyllfaoedd anffurfiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn trafod yn hyderus ac yn aeddfed am, er enghraifft, effaith tanau ar yr amgylchedd ac ar fyd natur. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd nodedig yn eu defnydd o'u medrau llafar yn y Gymraeg wrth iddynt symyd drwy'r ysgol. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn egluro ac yn cyfrannu'n gryno ac aeddfed wrth ddadlau 'a ddylai Tryweryn gael ei foddi?'. Maent yn siarad yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio iaith ffurfiol, lle bo'n briodol. Mae balchder rhan fwyaf y disgyblion tuag at yr iaith Gymraeg yn amlwg wrth iddynt siarad am eu gwaith a'u hysgol. Ar y cyfan, mae medrau gwrando rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen yn rhugl ac yn ailadrodd straeon yn hyderus. Maent yn trafod eu hoff gymeriadau yn bwrpasol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gywir gyda dealltwriaeth dda yn y ddwy iaith. Maent yn trafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau, er enghraifft yn y llyfr 'The boy in the back of the classroom', gyda brwdfrydedd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn annibynnol er mwyn ysgrifennu adroddiadau ysgrifenedig, er enghraifft am amodau gwaith plant yn y pyllau glo.

Mae medrau cynnar llawer o ddisgyblion i ffurfio llythrennau ac i ddechrau ysgrifennu'n annibynnol yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol yn hyderus. Enghreifftiau da o hyn yw eu cymhariaeth o Fecsico a Chymru ac wrth iddynt adrodd stori Dwynwen. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig mewn amrywiaeth o arddulliau yn llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio geirfa ddiddorol i gyfoethogi eu gwaith. Maent yn cyflwyno'u syniadau a'u gwybodaeth yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n effeithiol i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn creu cylchgrawn am Langrannog ac yn ysgrifennu mewn ffyrdd creadigol i ddisgrifio eu byd dychmygol nhw. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus iawn.

Mewn gwersi mathemateg, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau rhifedd penodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn gadarn wrth iddynt fesur a threfnu o'r lleiaf i'r

mwyaf, olion traed cymeriadau o stori'r Gryffalo, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio gwrthrychau ansafonol yn hyderus i fesur hyd wrthrychau gwahanol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn casglu data tymheredd o wahanol ardaloedd yn Awstralia yn seiliedig ar eu thema am y wlad. Maent yn cwblhau taenlen yn llwyddiannus ac yn arddangos y data ar ffurf graff bar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Maent yn cyflwyno gwaith mathemateg ar lefel sy'n unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu a thrin rhifau hyd at chwe digid yn gadarn wrth iddynt gwblhau cyfriflen banc. Maent yn defnyddio nifer o strategaethau pen yn hyderus wrth luosi a rhannu rhifau cyfain a degolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus i resymu, casglu, cofnodi a dadansoddi data wrth iddynt gymharu stategaeth am Gymru, er enghraifft. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid ydynt yn defnyddio eu medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol yn ddigon aml.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau prosesu geiriau ac yn tynnu lluniau, er enghraifft am wahanol anifeiliaid y nos, yn bwrpsol. Yn ogystal, maent yn cyfarwyddo teclyn i symud o amgylch map llawr i gyfeiriadau gwahanol ac yn recordio eu cyflwyniadau tywydd yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu cyflwyniadau aml-gyfrwng yn effeithiol i gyflwyno ffydd Islam ac mae'r disgyblion hŷn yn creu ffilmiau byr am fod yn ddigartref. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn creu bas data am wahanol bysgod ac yn ychwanegu gwybodaeth am wledydd cwpan y byd rygbi ar fap rhyngweithiol yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn cadw ac arddangos eu gwaith yn annibynnol. Maent yn cymhwyso eu medrau TGCh yn gyson ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn yr ysgol yn hapus. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn eu poeni. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar y we a pha gamau i'w cymryd er mwyn cael cymorth, pe bai angen. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryder sydd ganddynt.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amseroedd chwarae a chinio. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac mae disgyblion hŷn, fel aelodau o'r grŵp llaw yn llaw, yn gofalu am ddisgyblion lleiaf yr ysgol yn ystod amser chwarae yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhoi croeso cynnes i ymwelwyr ac yn trin yr holl oedolion gyda pharch. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth dda o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agwedd bositif at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn dda. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac yn dangos parch at farnau ei gilydd. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithrediad, dyfalbarhad a'r cymorth mae grŵp o ddisgyblion yn eu rhoi i'w gilydd wrth gynllunio a chynhyrchu cylchgrawn digidol 'Clecs Caerau'. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn barod i ddysgu ar gychwyn gwersi ac yn gwerthfawrogi'r sesiynau meddylgarwch yn fawr. Teimla'r disgyblion hŷn fod y cyfle i fyfyrio mewn awyrgylch tawel yn eu paratoi'n dda i ymdopi â gweithgareddau a heriau'r dydd. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn newid o un gweithgaredd i'r llall yn

hwylus. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu beth yr hoffent ei ddysgu yn ystod prynhawniau darganfod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â sut yr hoffent ddysgu yn ddigon aml.

Mae llawer o ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i ddatblygu eu rôl i gynrychioli llais y disgyblion eraill. Maent yn ymgymryd â'u rolau cyfrifoldeb gyda brwdfrydedd. Enghraifft dda yw'r ffordd mae'r criw Cymreictod yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn achlysurol. Mae aelodau o'r criw cydraddoldeb yn dylanwadu'n llwyddiannus ar awyrgylch hapus a chyfeillgar yr ysgol wrth iddynt adael negeseuon codi calon o amgylch yr ysgol. Drwy waith egnïol y pwyllgor eco, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn am bwysigrwydd lleihau'r defnydd o blastig. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn hyderus am effaith ymarfer corff rheolaidd ar lefelau ffitrwydd iechyd a lles corfforol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau niferus allgyrsiol, fel pêl-droed a chlwb aml-chwaraeon yr Urdd. Yn ddiweddar, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi sicrhau bod ardal ddiogel i gloi beiciau ar fuarth yr ysgol ac wedi trefnu wythnos 'cerdded i'r ysgol' yn flynyddol. Maent hefyd wedi cyflwyno offer i'w ddefnyddio ar fuarth yr ysgol i alluogi'r holl ddisgyblion i ymarfer eu medrau ymarferol yn ystod amser egwyl a chinio.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol trwy gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau codi arian neu i gyfrannu i elusennau yn eu cymuned, fel y banc bwyd lleol a'r digartref. Yn ogystal, mae'r arweinwyr digidol yn ymweld â chartref preswyl cyfagos bob yn ail wythnos i rannu eu medrau technoleg gyda'r trigolion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, ac i gryfhau eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol yn dda.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae'r athrawon yn creu awyrgylch ddysgu gefnogol ac awyrgylch tawel, heddychol drwy sesiwn byr o feddylgarwch ar ddechrau pob dydd. Maent yn rheoli eu hymddygiad yn fedrus ac mewn modd sensitif. Caiff hyn oll effaith lwyddiannus iawn ar agwedd a brwdfrydedd y disgyblion tuag at eu gwaith.

Mae'r ysgol yn dechrau cynllunio'n fwriadus ar gyfer mynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r staff yn cynllunio ar y cyd ac yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar y cynllunio ar ddechrau eu themâu, sy'n eu hysgogi i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r athrawon yn addasu'r cynllunio'n fedrus i ddilyn trywyddion a syniadau'r disgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion Blwyddyn 2 wedi dangos empathi tuag at y tanau yn Awstralia ac mae'r athro wedi cynllunio tasgau'n fwriadus ac addasu eu thema 'Yn y nos' i ymateb i hyn. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang i'r disgyblion, sy'n eu hysbrydoli'n effeithiol i ddysgu. Er enghraifft, er mwyn datblygu gwybodaeth a medrau Blwyddyn 6 i greu cofnod digidol o'u profiadau yn Llangrannog, mae dyn camera a chyfarwyddwr o un o gwmnïau teledu'r ddinas wedi cyflwyno'r broses o greu ffilm iddynt. Mae'r profiadau hyn yn cryfhau ymgysylltiad y disgyblion â'u dysgu yn dda.

Mae'r staff i gyd yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith y disgyblion, sy'n cyfrannu'n fuddiol at ddatblygiad medrau llafar y disgyblion. Mae'r ethos Cymreig

cryf sy’n bodoli, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae'r athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu gwybodaeth y disgyblion am hanes a diwylliant Cymru. Enghraifft dda yw brwdfrydedd y disgyblion wrth esbonio arwyddocâd eu logo ysgol sy’n seiliedig a’r gaer gyfagos, a’u gwaith ar ddylanwad Owain Glyndŵr ar Gymru. Mae hyn yn atgyfnerthu ymdeimlad o falchder y disgyblion tuag at yr ardal leol a diwylliant Cymru.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn sicrhau rhediad da i’w gwersi. Maent yn rhannu’r nod yn glir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Ar y cyfan, mae’r athrawon yn gosod tasgau o lefelau her wahanol sy’n dechrau galluogi disgyblion i ddefnyddio’u gwybodaeth flaenorol a’u medrau meddwl i geisio datrys problemau. Er enghraifft, mae Blwyddyn 3 yn dewis bwydydd priodol i greu pecyn bwyd i ofodwr. Mae athrawon yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i helpu disgyblion ddeall cysyniadau newydd ac i ddatblygu’u gwybodaeth a’u medrau. Mae mwyafrif o’r athrawon yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu ynghyd â sylwadau ysgrifenedig pwrpasol fel sylfaen i roi adborth pwrpasol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae gan lawer o’r disgyblion hŷn ddealltwriaeth dda o’r hyn maent yn ei wneud yn dda a’r agweddau o’u gwaith sydd angen eu gwella. Maent yn dechrau cyfrannu tuag at wella eu gwaith eu hunain yn addas. Fodd bynnag, er bod cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol, nid ydynt yn gyson ar draws yr ysgol. Mae gan y staff duedd i orarwain gweithgareddau ar draws yr ysgol.

Mae’r athrawon yn canolbwyntio’n effeithiol ar ddatblygu medrau disgyblion, gan sicrhau bod eu cynlluniau a’u haddysgu yn darparu cyfleoedd i’r disgyblion adeiladu ar eu gallu a’u gwybodaeth flaenorol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd a TGCh y disgyblion yn naturiol fel rhan annatod o’r cynllunio. Fodd bynnag, mae’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol yn anghyson ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae’r staff wedi sefydlu’r cyfnod sylfaen yn effeithiol. Trwy nifer o weithgareddau amrywiol, maent yn cyflwyno medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn fedrus. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu trwy brofiadau ymarferol yn yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd y gofal ac arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at les disgyblion, datblygiad personol a'r safonau da y maent yn eu cyflawni. Mae’r naws o lonyddwch a’r ethos gofalgar sy’n treiddio trwy’r ysgol yn gryfder.

Mae’r ysgol yn cynnig cefnogaeth effeithiol iawn i ddysgwyr bregus yn eu dosbarth maeth bob bore. Mae’r disgyblion hyn yn elwa’n fawr iawn o arbenigedd y staff i’w cefnogi’n emosiynol a chaiff hyn effaith sylweddol ar wella eu hymddygiad. Un o gryfderau’r ddarpariaeth hon yw’r modd hynaws y mae’r staff yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol effeithiol. O ganlyniad, mae’r disgyblion i gyd yn ailymuno â’u dosbarthiadau bob prynhawn. Caiff y ddarpariaeth hon effaith gadarnhaol ar les y disgyblion ac ar y cynnydd a wnânt mewn medrau sylfaenol.

Mae’r ysgol yn defnyddio dulliau creadigol i gynnwys rhieni yng ngwaith eu plant. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw rôl y swyddog teulu i roi cymorth i rieni ac i gynnal sesiynau galw heibio’n ddyddiol er mwyn eu cefnogi ar frys. Yn ogystal, mae staff y meithrin a derbyn yn cynnal gweithdai iaith ac yn chwarae gyda rhieni'r disgyblion lleiaf yn wythnosol i alluogi rhieni i gefnogi eu plant adref. Mae’r rhieni yn gwerthfawrogi'r ffyrdd niferus a ddefnyddir gan yr ysgol i gysylltu â nhw, yn enwedig i rannu gwaith pob dosbarth yn ddyddiol. O ganlyniad, mae gan yr ysgol a’r rhieni berthynas agos a chynhaliol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol i olrhain cynnydd a monitro lles ei disgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gynnar. Mae cynlluniau addysg unigol yn canolbwyntio'n dda ar anghenion penodol unigolion ac yn nodi targedau ar gyfer gwella, sy'n cael eu rhannu'n bwrpasol gyda staff, rhieni a disgyblion. Mae staff yn monitro cynnydd tuag at y targedau hyn yn fuddiol ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da. Mae cynorthwywyr yn gwneud cyfraniad arbennig trwy weithio'n fedrus i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol, er enghraifft i ddarparu rhaglen sy’n adeiladu medrau cydweithio grwpiau o ddisgyblion. Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerthfawr gydag ystod o asiantaethau allanol sy'n darparu cefnogaeth dda i ddisgyblion fel, er enghraifft, y therapydd chwarae sy’n meithrin hyder ac hunan-barch y disgyblion yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol y disgyblion yn gadarn. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau celf, er enghraifft i greu lluniau yn debyg i waith arlunwyr adnabyddus fel Kevin Burgess, a chreu modelau o anifeiliaid y môr. Trwy gyfleoedd i berfformio ac i gystadlu yn yr ysgol ac mewn eisteddfodau’r Urdd, mae medrau cymdeithasol a hyder y disgyblion yn datblygu’n dda. Mae ymweliadau addysgol i leoedd diddorol fel amgueddfa Sain Ffagan, sioeau Cymraeg a pherfformiadau cantorion pop yn magu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant a hanes Cymru yn fwriadus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Ar ddechrau bob tymor, mae llais y disgybl yn dylanwadu’n gadarnhaol ar ba weithgareddau corfforol allgyrsiol y mae’r ysgol yn eu cynnig bob tymor. Yn ogystal â’r clybiau chwaraeon, mae gweithgareddau’r cwricwlwm yn cynyddu gwybodaeth y disgyblion yn dda am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw’n iach. Drwy sesiynau cylch a meddylgarwch, mae gan y disgyblion wybodaeth gref am agweddau moesol a chymdeithasol sy’n gallu eu heffeithio’n gadarnhaol. Mae’r staff yn trefnu cyfleoedd priodol i ddisgyblion brofi elfennau ysbrydol trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a dysgu am grefyddau amrywiol mewn gwersi. Drwy weithgareddau ysgol gyfan fel wythnos gwrth-fwlio a chydraddoldeb, mae’r disgyblion yn magu parch tuag at bobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd yn briodol. Mae’r ysgol yn dechrau darparu cyfleoedd addas i’r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o’r byd ehangach drwy astudio Syria fel gwlad a gwahodd ffoaduriaid i mewn i rhannu eu profiadau gyda’r disgyblion.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gweledigaeth gadarn y pennaeth i greu cymuned gartrefol a chynhwysol yn amlwg iawn. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion. Mae'r pwyslais ar sicrhau lles a Chymreictod y disgyblion wedi llwyr ymwreiddio ac yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cynnal yr ethos cadarnhaol, ysgol gyfan, lle mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel.

Mae'r staff sydd â chyfrifoldebau arwain penodol yn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae aelodau o'r uwch dîm rheoli yn defnyddio sesiynau dysgu proffesiynol a chyfarfodydd adran yn dda fel llwyfan i roi adborth ac i hysbysu'r staff eraill am ddatblygiadau yn eu maes neu gyfrifoldebau penodol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod staff yn deall mentrau newydd a'u rhan yn eu cyflwyno. Er enghraifft, maent yn arwain ar baratoi i ddatblygu agweddau o'r cwricwlwm newydd i Gymru ac i hybu Cymreictod. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar addasu'r cynllunio ac i godi safon lafar y disgyblion.

Mae'r staff i gyd yn gweithio'n dda o fewn timau cwricwlaidd. Mae trefniadau pwrpasol yn bodoli ar gyfer rheoli eu perfformiad ac mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd hyfforddiant gwerthfawr iddynt. Ar y cyfan, mae'r targedau'n mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau'r ysgol a chenedlaethol, fel gwella medrau ysgrifennu disgyblion a chynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at beth yr hoffent ei ddysgu.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu effeithiol. O fewn yr ysgol, mae ymrwymiad staff i rannu eu gwybodaeth broffesiynol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dulliau newydd ar gyfer dysgu ac addysgu. Er enghraifft, mae'r staff wedi cyflwyno ardaloedd chwarae rôl ar draws yr ysgol ac maent yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau digidol y disgyblion mewn pynciau amrywiol. Mae hyn wedi arwain at gywaith gydag ysgol gyfagos i hybu medrau llythrennedd Saesneg a TGCh ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3. Mae cysylltiadau da ag ysgolion eraill o fewn a thu hwnt i'r clwstwr. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd buddiol i rannu arfer dda ac i fyfyrio ar effaith eu harfer eu hunain ac ar les y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd eang i gynorthwywyr dysgu hyfforddi er mwyn cefnogi disgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol raglen briodol ar gyfer monitro a gwerthuso ystod o agweddau ar ei gwaith. Ar y cyfan, mae'r broses o hunanwerthuso yn bwrpasol ac yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys dadansoddi data, craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a chynnal teithiau dysgu. Dros amser, mae'r ysgol wedi adnabod meysydd pwysig i'w gwella, fel lles y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau monitro yn ffocysu'n ddigon aml ar agweddau penodol sydd angen eu gwella.

Mae'r cadeirydd, ynghyd â nifer o aelodau'r corff llywodraethol, yn brofiadol ac maent yn deall cyd-destun yr ysgol yn dda. Trwy gyflwyniadau gan yr uwch dîm rheoli a llawer o'r athrawon, mae'r corff llywodraethol yn datblygu eu gwybodaeth am berfformiad yr ysgol a datblygiadau'r cwricwlwm yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl i ddwyn yr ysgol i gyfrif am safonau a chyrhaeddiad y disgyblion ac i gyfrannu at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol wedi datblygu'n llwyr.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn sicrhau bod y gyllideb a’r grantiau ychwanegol yn cysylltu’n agos â blaenoriaethau’r ysgol ac mae gwariant yn cael ei ddadansoddi’n ofalus. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd creadigol o’r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn. Maent yn cyflogi cynorthwywyr addysgu i gynorthwyo’r disgyblion ac wedi sefydlu hafan arbennig ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2020